

## Tasg 2

# Dwy ochr y geiniog

Cwpan y  
Byd

Cwpan  
UEFA

Y Gemau  
Olympaidd

Gemau'r  
Gymanwlad

Dyma rai o brif ddigwyddiadau chwaraeon y byd, sy'n cael eu cynnal mewn rhannau gwahanol o'r byd yn eu tro. Ond beth yw'r pethau da a'r pethau drwg am gynnal y fath ddigwyddiadau? Nodwch pa rai o'r gosodiadau canlynol yn fanteision ac yn anfanteision gan lenwi'r golofn gywir yn y tabl.

	Manteision	Anfanteision
Trethi uwch i dalu am y cyfan		
Mwy o fuddsoddiad		
Mwy o sylw i'r ddinas a'r wlad sy'n gartref i'r digwyddiad		
Mwy o fesurau diogelwch		
Y posibilrwydd o sylw gwael neu negyddol		
Mwy o swyddi		
Cyffro		
Yr adnoddau ond yn cael eu defnyddio am gyfnod byr		
Mwy o arian yn cael ei wario		
Cost adeiladu'r stadiwm a'r holl adnoddau newydd		

	GEIRFA	
CYMRAEG	DISGRIFIAD	SAESNEG
<b>buddsoddiad</b>	arian sy'n cael ei roi er mwyn gwella rhywbeth	<b>investment</b>
<b>adnoddau</b>	pethau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer pwrpas arbennig	<b>resources</b>
<b>mesurau diogelwch</b>	ffyrdd o wneud yn siŵr nad oes perygl i unrhyw un neu unrhyw beth	<b>safety measures</b>
<b>trethi</b>	yr arian y mae pobl y wlad yn talu i'r llywodraeth	<b>taxes</b>